NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Baricitinib ar gyfer arthritis gwynegol cymedrol i ddifrifol

9 Awst 2017

Argymhellir baricitinib (Olumiant) a gymerir ar y cyd â chyffur o'r enw methotrexate fel triniaeth bosibl i oedolion sydd ag arthritis gwynegol difrifol o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- nid yw'r clefyd wedi ymateb i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) confensiynol
- nid yw'r clefyd wedi ymateb i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) gan gynnwys o leiaf 1 atalydd alffa TNF-, neu ni all y person eu cael, ac ni allant gael rituximab.

Gellir defnyddio baricitinib ar ei ben ei hun os na all pobl gymryd methotrexate.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 6 mis os nad yw'r arthritis gwynegol yn ymateb yn ddigon da.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd baricitinib nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Dilynwch ni ar Twitter a Facebook.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- National Rheumatoid Arthritis Society (NRAS), 0800 298 7650
- Arthritis and Musculoskeletal Alliance (ARMA), 0203 856 1978
- Arthritis Action, 020 3781 7120
- Versus Arthritis, 0800 520 0520

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2620-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights